**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Yr Arglwydd Bellamy CB
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

28 Ebrill 2023.

Annwyl Arglwydd Bellamy,

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol:
Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Ymhellach i'n llythyr dyddiedig 9 Mawrth yn atodi copi o'n hadroddiad ar brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, rydym bellach wedi cael ymateb Llywodraeth Cymru ac mae copi ohono wedi'i atodi er gwybodaeth. O ystyried eu perthnasedd i'ch portffolio chi, byddem yn croesawu cael eich sylwadau mewn perthynas â'r argymhellion a ganlyn a'r sylwadau dilynol gan Lywodraeth Cymru:

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru fapio cost y gwasanaethau y mae'n eu darparu i nodi'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt fel rhan o'r setliad datganoli presennol, a'r rhai sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar hyn o bryd. Dylai'r gwaith hwn gael ei wneud erbyn mis Mehefin 2023 a dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i nodi bylchau ac i sicrhau bod digon o opsiynau eraill yn y gymuned heblaw am garchar ar gael yn benodol i fenywod ledled Cymru.

**Argymhelliad 8:** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag adrannau cyfatebol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fynegi'n gliriach y diben a'r gwasanaethau y bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn eu cynnig.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau gweithredol sy'n ymwneud â Chanolfannau Preswyl i Fenywod.

Trefnwyd dadl yn y Senedd ar ein hadroddiad ar gyfer dydd Mercher 24 Mai a byddem yn ddiolchgar felly i gael ymateb erbyn canol dydd ar 17 Mai os yn bosibl.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru